Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Asesiad Strwythuredig 2015: Cymharu adroddiadau perfformiad i fyrddau

# Pob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth GIG


**Blwyddyn Archwilio:** 2015

**Cyhoeddwyd:** Mehefin 2016

**Cyfeirnod y Ddogfen:** 179A2016

# Statws y ddogfen

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Pe byddid yn derbyn cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir eich sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r hyn y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ei wneud wrth ddelio â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol.
O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru'n drydydd partïon perthnasol. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

Y tîm a gyflawnodd y gwaith oedd Tom Haslam, Andrew Doughton a Carol Moseley, o dan gyfarwyddyd David Thomas.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb o'n dadansoddiad | |
| Rhagarweiniad a chefndir | 4 |
| Sgôp | 4 |
| Methodoleg | 4 |
| Dehongliad o'r canlyniadau | 5 |
| Dadansoddiad cymharol | 5 |
| Canfyddiadau lefel Cymru Gyfan | 6 |
| Canfyddiadau lefel Corff Iechyd | 10 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bro Morgannwg Abertawe | 11 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 13 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 15 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 17 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf | 19 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 21 |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 23 |
| Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru | 25 |
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 27 |
| Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 29 |
| Atodiadau | |
| Adroddiadau perfformiad wedi eu cynnwys yn nadansoddiad 2015 | 31 |
| Crynodeb o sut y gwnaethom ein dadansoddiad | 32 |
| Nodweddion adrodd – cymhariaeth o bob corff iechyd yn ôl nodweddion | 35 |

# Crynodeb o'n dadansoddiad

## Rhagarweiniad a chefndir

**1.** Mae rheoli perfformiad yn effeithiol yn bwysig os yw cyrff iechyd i ddarparu canlyniadau iechyd a gwasanaethau gwell a gwerth gwell am arian. Mae angen i fyrddau cyrff y GIG ganolbwyntio eu hymdrechion a gwneud penderfyniadau da. I wneud hyn mae angen gwybodaeth drylwyr arnynt a rhaid dadansoddi perfformiad y sefydliad yn dreiddgar.

**2.** Asesiad Strwythuredig yw archwiliad blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol o'r trefniadau sydd gan gyrff y GIG ar gyfer cefnogi llywodraethu da a gwneud defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Fel rhan o Asesiad Strwythuredig 2015 rydym wedi cymharu pa mor effeithiol y mae pob corff GIG yn adrodd ar berfformiad i'w byrddau. Ymarfer peilot oedd hwn i brofi beth oedd gwerth a pha mor ymarferol oedd gwneud y math hwn o ddadansoddiad cymharol fel rhan o asesu strwythuredig yn y dyfodol, a hefyd i rannu dysgu ac arferion da ar draws byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG.

**3.** Mae'r ddogfen hon yn crynhoi ein dadansoddiad ac yn gwneud cymhariaeth lefel uchel o adroddiadau perfformiad i fyrddau'r GIG.

## Sgôp

**4.** Mae'r gwaith hwn yn cymharu sut y mae pob corff GIG yn adrodd ar ei berfformiad i'w fwrdd. Nid oedd y gwaith yn gwneud sylwadau ar berfformiad cyrff y GIG.

**5.** Roedd yr adolygiad yn cynnwys y cyrff canlynol:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bro Morgannwg Abertawe
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Felindre
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**6.** Roedd yr adroddiadau perfformiad a adolygwyd o'r cyfnod rhwng Mehefin a Thachwedd 2015, a restrir yn Atodiad 1.

## Methodoleg

**7.** Ar gyfer pob corff GIG fe wnaethom ddewis cyfres o adroddiadau perfformiad o un cyfarfod bwrdd. Lle oedd hynny'n briodol roeddent yn cynnwys adroddiadau ar

berfformiad, cyllid, gweithle a phrofiad cleifion. Mae'r adroddiadau'n rhoi ciplun o gyflwr yr adrodd ar berfformiad ym mhob corff iechyd neu ymddiriedolaeth GIG.

**8.** Aseswyd yr adroddiadau perfformiad drwy ddefnyddio amrywiol feini prawf sydd wedi cael eu datblygu gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae meini prawf Swyddfa Archwilio Cymru'n seiliedig ar ymchwil gysylltiedig[1] gan y Gymdeithas Rheolaeth Ariannol Gofal Iechyd (HFMA) a Sefydliad Siartredig y Cyfrifwyr Rheoli (CIMA).

**9.** Defnyddiodd y dadansoddiad feini prawf a fu'n ystyried nodweddion a chwmpas yr adrodd:

- Nodweddion – ydy'r adroddiadau perfformiad yn glynu wrth feini prawf ymarfer da gan gynnwys, er enghraifft, adrodd ar eithriadau, defnydd o siartiau a meincnodi?
- Cwmpas – ydy'r adroddiadau perfformiad yn ddigon eang eu cwmpas, gan gynnwys meysydd fel cyllid, canlyniadau cleifion a phrofiad cleifion?

**10.** Mae Atodiad 2 yn crynhoi ein methodoleg a'r system sgorio.

## Dehongli'r canlyniadau

**11.** Rhaid cymryd pwyll wrth ddehongli canlyniadau ein dadansoddiad:

- Oherwydd bod yr adolygiad wedi'i wneud ar adeg neilltuol, efallai na fydd yn gwbl gynrychiadol o adrodd ar berfformiad blwyddyn lawn gan gorff GIG unigol. Dylid hefyd cydnabod bod rhai adroddiadau efallai wedi esblygu ers i ni wneud ein dadansoddiad. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r sefydliadau hynny a ddiwygiodd neu a ddatblygodd eu trefniadau adrodd i'w bwrdd ymhellach. Hefyd bydd rhai cyrff GIG efallai'n cyflwyno adroddiadau chwarterol neu adroddiadau penodol ychwanegol yn ystod y flwyddyn.
- Mewn rhai siartiau defnyddiwyd cyfartaledd Cymru Gyfan ond oherwydd bod y sampl yn fach gallai un neu ddau o sefydliadau ddylanwadu ar hyn. Felly efallai na fydd unrhyw welliant i'r cyfartaledd yn cynrychioli gwelliant cyson ar draws yr holl sefydliadau.
- Mae angen bod yn ofalus wrth gymharu siartiau radar rhwng cyrff y GIG. Rydym wedi addasu echel siart pob corff er mwyn cyflwyno pethau'n gliriach. Mae hyn yn golygu na fydd y graddfeydd efallai'n gyson rhwng y siartiau i gyd.

## Dadansoddiad cymharol

**12.** Rydym wedi trefnu canfyddiadau ein dadansoddiad ar lefel Cymru Gyfan a lefel corff GIG unigol.

**13.** Rhoddir sylwebaeth a chymharir sut y mae adrodd ar berfformiad wedi esblygu dros amser, lle bo hynny'n briodol, ar sail dadansoddiadau tebyg a wnaed yn 2012 a 2013.

[1] Raising the Standard of Performance Reporting in the NHS, HFMA/CIMA 2004

## Canfyddiadau lefel Cymru Gyfan

**14.** Cyflwynir isod ganfyddiadau'r dadansoddiad Cymru Gyfan sy'n rhoi sylwebaeth gyffredinol ar adrodd ar berfformiad gan gyrff y GIG (Ffigwr 1), cyflwyniad ar ffurf graff o nodweddion yr adrodd ar berfformiad (Ffigwr 2) a chwmpas yr adrodd (Ffigwr 3).

Ffigwr 1: Crynodeb Cymru Gyfan o adroddiadau perfformiad gan gyrff y GIG

**Arsylwadau cyffredinol ar yr adroddiadau perfformiad**

**Beth sy'n dda neu'n ymddangos i fod wedi gwella?**

O'n sampl o adroddiadau ac o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, yr arwyddion oedd bod pethau wedi gwella yn y meysydd canlynol:

- prydlondeb y wybodaeth (o'i ddiffinio fel dim hŷn na dau fis), er bod peth gwaith penodol wedi'i gyfyngu i gylchoedd mesur eraill, er enghraifft adrodd chwarterol neu flynyddol;
- mwy o ddefnyddio graffiau a siartiau, sy'n aml yn dangos tueddiadau;
- dangos targedau ar gyfer llawer o ddangosyddion (rhai cenedlaethol yn bennaf);
- defnydd mwy o ddulliau cerdyn sgorio, yn aml yn defnyddio rhyw fath o godio lliw a / neu sgoriau coch, oren a gwyrdd (RAG)[2] i dynnu sylw'r darllenydd;
- mwy o ddefnydd o naratif esboniadol ochr yn ochr â data meintiol, wedi'i gysylltu gan amlaf i adrodd ar eithriadau; a
- adrodd mwy cwmpasog gan gynnwys rhai dangosyddion penodol (cenedlaethol yn bennaf) ar ansawdd data, canlyniadau (marwoldeb er enghraifft), gofal sylfaenol, ac ansawdd a diogelwch.

**Beth allai fod yn well?**

- Ni lwyddwyd eto i integreiddio'r adroddiad perfformiad yn llwyr. Y dull mwyaf cyffredin yw adroddiadau perfformiad a chyllid ar wahân. Mae gan rai cyrff iechyd amryw o adroddiadau. Fel arfer, mae'r adroddiadau cyllid yn nodi perfformiad yn erbyn targedau ariannol statudol yn hytrach na'n cysylltu perfformiad i'r amcanion busnes. Gallai hyn ei gwneud yn anoddach i fyrddau gael darlun llawn o berfformiad. Mae rhai cyrff iechyd yn cydnabod y diffyg integreiddio llwyr hwn ac yn newid y ffordd y maen nhw'n adrodd ar berfformiad.
- Gallai'r adroddiadau perfformiad egluro'n well beth yw'r ffactorau sy'n gyrru perfformiad. Byddai hyn yn cryfhau dealltwriaeth y byrddau ac yn eu helpu i farnu pa mor briodol yw unrhyw gamau ar gyfer gwella.
- Mae'n bosib gwneud adroddiadau'n haws i'w darllen drwy:
  - ddefnyddio mwy o grynodebau i dynnu sylw penodol at faterion perfformiad;
  - daro cydbwysedd mwy priodol rhwng naratif a dangosyddion;
  - cyfeirio [y darllenydd] ymlaen yn well; a
  - osgoi rhestri hir o fwledi byr.
- Er bod arwyddion bod pethau'n gwella, mae adroddiadau perfformiad fel arfer yn tueddu i roi pwyslais ar weithgareddau aciwt ac weithiau'n brin o'r cysylltiadau clir i strategaeth / Cynllun Tymor Canolig integredig (IMTP) y corff iechyd. Mae angen mwy o adrodd ar berfformiad mewn meysydd eraill, er enghraifft gofal sylfaenol, cymunedol a thrydyddol, perfformiad darparwyr allanol lle bo hynny'n berthnasol ac ar brosiectau a rhaglenni mawr. Gallai'r anghydbwysedd hwn ei gwneud yn anodd i'r bwrdd oruchwylio cyfanrwydd gweithgarwch y sefydliad.

[2] Y dull goleuadau traffig: RAG = red, amber and green

**Arsylwadau cyffredinol ar yr adroddiadau perfformiad**

**Beth allai fod yn well?**

- Ni lwyddwyd eto i integreiddio'r adroddiad perfformiad yn llwyr. Y dull mwyaf cyffredin yw adroddiadau perfformiad a chyllid ar wahân. Mae gan rai cyrff iechyd amryw o adroddiadau. Fel arfer, mae'r adroddiadau cyllid yn nodi perfformiad yn erbyn targedau ariannol statudol yn hytrach na'n cysylltu perfformiad i'r amcanion busnes. Gallai hyn ei gwneud yn anoddach i fyrddau gael darlun llawn o berfformiad. Mae rhai cyrff iechyd yn cydnabod y diffyg integreiddio llwyr hwn ac yn newid y ffordd y maen nhw'n adrodd ar berfformiad.
- Gallai'r adroddiadau perfformiad egluro'n well beth yw'r ffactorau sy'n gyrru perfformiad. Byddai hyn yn cryfhau dealltwriaeth y byrddau ac yn eu helpu i farnu pa mor briodol yw unrhyw gamau ar gyfer gwella.
- Mae'n bosib gwneud adroddiadau'n haws i'w darllen drwy:
  - ddefnyddio mwy o grynodebau i dynnu sylw penodol at faterion perfformiad;
  - daro cydbwysedd mwy priodol rhwng naratif a dangosyddion;
  - cyfeirio [y darllenydd] ymlaen yn well; a
  - osgoi rhestri hir o fwledi byr.
- Er bod arwyddion bod pethau'n gwella, mae adroddiadau perfformiad fel arfer yn tueddu i roi pwyslais ar weithgareddau aciwt ac weithiau'n brin o'r cysylltiadau clir i strategaeth / Cynllun Tymor Canolig integredig (IMTP) y corff iechyd. Mae angen mwy o adrodd ar berfformiad mewn meysydd eraill, er enghraifft gofal sylfaenol, cymunedol a thrydyddol, perfformiad darparwyr allanol lle bo hynny'n berthnasol ac ar brosiectau a rhaglenni mawr. Gallai'r anghydbwysedd hwn ei gwneud yn anodd i'r bwrdd oruchwylio cyfanrwydd gweithgarwch y sefydliad.


**Beth allai fod yn well? (parhad)**

- Mae angen integreiddio profiad y claf o fewn adroddiadau perfformiad yn well (cwynion, profiad y defnyddiwr a gwybodaeth arall wedi'i chynhyrchu gan ddefnyddwyr gwasanaeth).
- Ychydig o'r adroddiadau perfformiad gan y cyrff iechyd sy'n ystyried, fel mater o drefn, unrhyw fesurau gwerth am arian neu sut i'w wella.
- Defnydd ehangach o ragfynegi fel techneg. Lle caiff ei defnyddio, mae fel arfer ar gyfer perfformiad ariannol diwedd blwyddyn.
- Mae angen i gyfrifoldebau dros fesurau gwella fod yn ddiamwys os yw camau ôl-ddilyn y bwrdd i fod mor drylwyr ag y medrant fod. Mae'r rhan fwyaf o gyrff iechyd yn enwi'r swyddog arweiniol sy'n gyfrifol am bob maes perfformiad ond efallai nad yw'r person yma'n uniongyrchol gyfrifol am y mesurau gwella perthnasol. Hefyd, mae'r rhan fwyaf o'r mesurau gweithredu yn y naratif yn hytrach nag o dan benawdau ar wahân sy'n ei gwneud yn anodd adnabod a throi'n ôl at weithrediadau blaenorol.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o sampl o adroddiadau perfformiad byrddau 2015, o'i gymharu â dadansoddiad tebyg yn 2012 a 2013.

**15.** Mae Ffigwr 2 (ar y dudalen nesaf) yn nodi a yw'r adroddiadau perfformiad yn cynnwys nodweddion penodol a sut y newidiodd hyn dros amser. Nid yw'n mesur cyfran gymharol pob nodwedd o'r adroddiad perfformiad, hynny yw faint o gynnwys.

Ffigwr 2: Nodweddion yr adroddiadau perfformiad – cyfartaledd Cymru Gyfan 2012, 2013 a 2015




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o sampl o adroddiadau perfformiad byrddau 2015, o'i gymharu â dadansoddiad tebyg yn 2012 a 2013.


Dalier sylw – yr uchafswm sgôr posibl ar gyfer pob nodwedd oedd 10 a'r isafswm sgôr oedd 0.

**16.** Mae gwelliant wedi bod yn yr adrodd ar berfformiad ar draws nifer o'r nodweddion. Mae hyn yn adlewyrchu'r defnydd mwy a wneir o dechnegau fel graffeg, tueddiadau a thargedau. Mae cynllunio gweithredu wedi gwella gyda llawer o gyrff y GIG yn adnabod camau neu fesurau gweithredu mewn ymateb i broblemau perfformiad, ond gallai'r cyfrifoldeb dros y mesurau hyn fod yn gliriach.

**17.** Dylid cefnogi'r wybodaeth feintiol, lle bynnag y bo'n bosib, gyda naratif sy'n helpu'r darllenydd i ddeall beth sydd wedi digwydd. Ar hyn o bryd mae adroddiadau'n tueddu i wneud hyn ar gyfer eithriadau'n unig, hynny yw lle mae'r perfformiad wedi dirywio, yn werth ei nodi neu i adnabod maes diddordeb penodol. Mae Atodiad 3 yn cymharu perfformiad pob corff GIG ar gyfer pob nodwedd adrodd, yn defnyddio'r meini prawf a'r cynllun sgorio a gyflwynir yn Atodiad 2.

18. Mae Ffigwr 3 yn tynnu sylw at gwmpas yr adrodd yn ein sampl o adroddiadau perfformiad a sut y newidiodd hyn dros amser.

Ffigwr 3: Cwmpas yr adroddiadau perfformiad – cyfartaledd Cymru Gyfan 2012, 2013 a 2015




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o sampl o adroddiadau perfformiad byrddau 2015, o'i gymharu â dadansoddiad tebyg yn 2012 a 2013.

Dalier sylw – yr uchafswm sgôr posib ar gyfer pob maes cwmpas oedd 14 a'r isafswm sgôr oedd 0.

19. At ei gilydd mae cwmpas yr adrodd wedi gwella. Mae'r gwelliant mewn cwmpas yn cynnwys rhai meysydd na chawsant eu hadrodd rhyw lawer o'r blaen fel ansawdd data, canlyniadau cleifion a phrofiad cleifion. Mae hyn yn gadarnhaol wrth ei fod yn rhoi darlun ehangach i'r bwrdd o weithgarwch y sefydliad. Fodd bynnag, mae'r matricsau a ddefnyddir yn y meysydd hyn yn gyfyng o ran sgôp a nifer o'i gymharu â rhai meysydd eraill.

**20.** Mesurau proses[3] yw'r swyddogaeth yr adroddir arni amlaf yn yr adroddiadau perfformiad (ac sy'n cyfrif am y gyfran fwyaf o'u cynnwys). Mesurau ansawdd a gweithlu yw'r rhai yr adroddir amlaf arnynt nesaf, ond mae'r rhain yn mynd â llai o gynnwys ac yn fwy cyfyng eu cwmpas. Er enghraifft, er bod mesurau gweithlu'n digwydd yn aml, fel arfer dim ond absenoldeb salwch y maent yn ei gynnwys ac weithiau cyflawnder yr arfarnu.

**21.** Anaml o hyd yw'r sylw a roddir i effeithlonrwydd, gwerth am arian a darparu rhaglenni / prosiectau.

## Canfyddiadau lefel corff iechyd

**22.** Mae'r adran hon yn cyflwyno'r dadansoddiad o bob corff GIG gan gymharu'r nodweddion adrodd â'r sefyllfa Cymru gyfan a rhoi sylwebaeth gyffredinol ar fformat a chwmpas adroddiadau perfformiad y sefydliadau. Mae Atodiad 3 yn cymharu pob un o nodweddion adrodd cyrff y GIG.

**23.** Cyflwynir dau ffigwr ar gyfer pob corff GIG fel a ganlyn:


- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bro Morgannwg Abertawe – ffigyrau 4 a 5;
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan – ffigyrau 6 a 7;
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – ffigyrau 8 a 9;
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – ffigyrau 10 ac 11;
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf – ffigyrau 12 a 13;
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – ffigyrau 14 a 15;
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys – ffigyrau 16 a 17;
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru – ffigyrau 18 a 19;
- Ymddiriedolaeth GIG Felindre – ffigyrau 20 ac 21; a
- Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru – ffigyrau 22 a 23.

**24.** Rydym wedi addasu'r graddfeydd yn y siartiau ar gyfer y cyrff iechyd yn yr adran hon er mwyn cyflwyno pethau'n gliriach. Nid yw'r graddfeydd felly'n gyson ar draws y siartiau i gyd.

[3] Mesurau proses – sy'n mesur perfformiad proses neu weithgareddau a gyflawnir i ddarparu gwasanaethau.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bro Morgannwg Abertawe

Ffigwr 4: Bwrdd Iechyd Prifysgol Bro Morgannwg Abertawe – nodweddion adrodd ar berfformiad





Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o adroddiadau perfformiad. Dalier sylw – yr uchafswm sgôr posib oedd 10 a'r isafswm sgôr oedd 0.

Ffigwr 5: Bwrdd Iechyd Prifysgol Bro Morgannwg Abertawe – crynodeb cyffredinol

| Beth sy'n dda neu'n ymddangos i fod wedi gwella? | Beth allai fod yn well? |
|---|---|
| • Mae'r gwahanol adroddiadau perfformiad i gyd yn dilyn yr un strwythur ac yn cysylltu'n glir i amcanion y bwrdd iechyd / IMTP. | • Nid yw'r adroddiad perfformiad yn gwbl integredig eto ac mae amryw o wahanol adroddiadau. |
| • Mae'r defnydd o gerdyn sgorio lefel uchel ym mhob adroddiad yn rhoi trosolwg sydyn. | • Mae'r adroddiadau'n cynnwys cardiau sgorio ond nid oes crynodeb trylwyr er mwyn rhoi naratif treiddgar. |
| • Mae'r rhan fwyaf o dudalennau'r prif adroddiad perfformiad yn cynnwys rhyw fath o ddata cymharol – gyda byrddau iechyd eraill gan mwyaf. | • Mae'r adroddiad cyllid yn drwm ar yr ochr naratif a gallai fod yn well drwy ddefnyddio siartiau a chodio lliw. Nid yw'n cysylltu i amcanion y bwrdd iechyd / IMTP. |
| • Defnyddir rhagfynegi i ddarogan cyflawni'r targed ar absenoldeb salwch. | • Gellid ehangu ar gwmpas yr adroddiad perfformiad oherwydd nid yw'n cynnwys holl weithgarwch y bwrdd iechyd. |
| • Mae cymysgedd da o naratif, gwybodaeth a data o fewn ffiniau'r hyn sy'n cael ei adrodd. | • Byddai'r mesurau gweithredu'n elwa o gael pobl benodol i fod yn gyfrifol amdanynt. |
| • Mae'r adroddiad yn cynnwys naratif sydd ar y cyfan yn adnabod mesurau unioni. | |
| • Defnyddir adrodd ar eithriadau i leihau maint yr adrodd. Mae'r rhain yn aml yn defnyddio graffeg i ddangos perfformiad presennol a thueddiadau. | |
| • Ar y cyfan mae gan y rhan fwyaf o'r dangosyddion dargedau cysylltiedig – mesurau cenedlaethol yn bennaf. | |

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Ffigwr 6: Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan – nodweddion adrodd ar berfformiad





Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o adroddiadau perfformiad. Dalier sylw – yr uchafswm sgôr posib oedd 10 a'r isafswm sgôr oedd 0.

Ffigwr 7: Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan – crynodeb cyffredinol

| Beth sy'n dda neu'n ymddangos i fod wedi gwella? | Beth allai fod yn well? |
|---|---|
| • Mae'r adroddiad cyllid yn defnyddio system RAG, rhai siartiau, rhagolygon o'r sefyllfa diwedd blwyddyn ac yn egluro rhywfaint beth yw'r ffactorau sy'n gyrru perfformiad. | • Nid yw'r adroddiad perfformiad yn integredig eto. Nid yw'r adroddiad cyllid yn cysylltu'n glir i amcanion y bwrdd iechyd. |
| • Mae'r darnau naratif yn seiliedig ar adrodd ar eithriadau. Gan amlaf mae'r rhain yn cysylltu i flaenoriaethau IMTP ac yn awgrymu mesurau gweithredu ar gyfer meysydd blaenoriaeth IMTP. | • Byddai'r adroddiad perfformiad yn elwa o strwythur cliriach a chyfeirio'r darllenydd ymlaen yn gliriach. |
| • Mae peth adrodd ar dargedau, fel arfer yn erbyn targedau cenedlaethol. | • Mae crynodeb ond mae'r naratif yn faith a heb ddefnydd o gerdyn sgorio neu rywbeth tebyg. |
| • Mae'r prif naratif perfformiad yn adnabod mesurau unioni gan amlaf. | • Mae'r adroddiad perfformiad yn defnyddio siartiau a thablau ond gallent gael eu cysylltu'n well i'r naratif. |
| • Mae'r adroddiad perfformiad yn seiliedig ar wybodaeth amserol. | • Nid oes dim neu fawr ddim defnydd o feincnodi neu ragfynegi. |
| | • Byddai'r mesurau gweithredu yn yr adroddiad perfformiad yn elwa o ddyrannu cyfrifoldebau'n ddiamwys. |
| | • Gellid ehangu ar gwmpas yr adroddiad perfformiad oherwydd nid yw'n cynnwys holl weithgarwch y bwrdd iechyd. |
| | • Byddai'r adroddiad yn elwa o naratif mwy treiddgar. |

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Ffigwr 8: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – nodweddion adrodd ar berfformiad




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o adroddiadau perfformiad. Dalier sylw – yr uchafswm sgôr posib oedd 10 a'r isafswm sgôr oedd 0.

Ffigwr 9: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – crynodeb cyffredinol

| Beth sy'n dda neu'n ymddangos i fod wedi gwella? | Beth allai fod yn well? |
|---|---|
| • Mae'r adroddiad perfformiad yn cynnwys crynodeb da gan gynnwys cyfeirio at amcanion y bwrdd iechyd (yr un fath â'r meysydd cenedlaethol). | • Nid yw'r adroddiad perfformiad yn gwbl integredig eto ac mae amryw o wahanol adroddiadau. |
| • Mae'r adroddiad cyllid yn defnyddio siartiau a system RAG. Mae'n rhagfynegi'r sefyllfa diwedd blwyddyn ac yn cynnwys y sefyllfa o ran arian parod, cyllideb a mantolen. | • Mae crynodeb o'r adroddiad perfformiad ym mhapur esboniadol y bwrdd, ond byddai'n well ei integreiddio o fewn yr adroddiad ei hun. |
| • Mae'r adroddiad perfformiad yn defnyddio adrodd ar eithriadau i leihau maint yr adrodd. Mae'r rhain yn defnyddio graffeg i ddangos perfformiad presennol a thueddiadau. | • Nid yw'r adroddiad cyllid yn cysylltu'n glir i amcanion y bwrdd iechyd. |
| • Mae'r adroddiad perfformiad yn gwneud defnydd helaeth o godio lliw i egluro perfformiad. | • Byddai'r adroddiad perfformiad yn elwa o naratif mwy treiddgar. |
| • Mae'r adroddiadau ar eithriadau'n adnabod mesurau unioni ac weithiau'n nodi pwy sy'n gyfrifol am eu gweithredu. | • Nid oes dim neu fawr ddim rhagfynegi. |
| • Mae'r adroddiad perfformiad wedi'i strwythuro'n glir ac felly'n hawdd llywio trwyddo.<br>Mae'n cysylltu i amcanion y bwrdd iechyd. Mae cardiau sgorio'n rhoi darlun cyffredinol o berfformiad. Mae'r rhan fwyaf o'r dangosyddion yn cynnwys targedau a chyfeirir at dargedau lleol. | • Gallai cwmpas yr adroddiad perfformiad fod yn ehangach, er enghraifft perfformiad darparwyr allanol. |
| • Defnyddir adroddiadau chwarterol i ategu'r adroddiadau sy'n cynnwys peth adrodd ar berfformiad rhaglenni. | |
| • Mae'r adroddiad perfformiad yn cynnwys cynnydd y rhaglenni effeithlonrwydd. | |
| • Mae peth meincnodi perfformiad rhwng cyrff GIG Cymru a Lloegr (drwy CHKS). | |

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Ffigwr 10: Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro – nodweddion adrodd ar berfformiad


Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o adroddiadau perfformiad. Dalier sylw – yr uchafswm sgôr posib oedd 10 a’r isafswm sgôr oedd 0.

Ffigwr 11: Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – crynodeb cyffredinol

| Beth sy'n dda neu'n ymddangos i fod wedi gwella? | Beth allai fod yn well? |
|---|---|
| • Mae crynodeb yr adroddiad perfformiad yn tynnu sylw at y dangosyddion lle mae perfformiad wedi gwella neu waethygu. Mae'r cerdyn sgorio'n rhoi trosolwg ar berfformiad. | • Nid yw'r adroddiad perfformiad yn integredig eto. Gallai ei strwythur fod yn well a gallai gyfeirio ymlaen yn well. |
| • Mae gan yr adroddiad perfformiad gymysgedd da o wybodaeth ansoddol a meintiol a gwneir defnydd priodol o siartiau a graffeg i ddangos y perfformiad presennol a thueddiadau. | • Byddai'r adroddiad perfformiad yn elwa o naratif mwy treiddgar a chodio lliw i helpu'r darllenydd i fesur perfformiad yn gyflym yn erbyn targedau. |
| • Cyflwynir peth gwybodaeth gymharol mewn meysydd penodol; mae hyn yn tueddu i gymharu gyda chyrff eraill yng Nghymru. | • Mae adroddiad cyllid ar wahân ac nid yw'n cysylltu'n glir i amcanion y bwrdd iechyd. Nid oes dim neu fawr ddim defnydd o siartiau a chodio lliw. |
| • Ar y cyfan mae gan y rhan fwyaf o'r dangosyddion dargedau cysylltiedig. Mae'r mesurau perfformiad lleol a ddiffiniwyd yn cynnwys targedau. | • Nid yw'r adroddiad perfformiad yn cynnwys dim neu fawr ddim rhagfynegi. |
| • Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad perfformiad yn amserol. | • Gellid ehangu ar gwmpas yr adroddiad perfformiad oherwydd nid yw'n cynnwys holl weithgarwch y bwrdd iechyd. |
| • Mae'r naratifau perfformiad yn adnabod mesurau unioni gan amlaf. | • Byddai'r mesurau gweithredu yn yr adroddiad perfformiad yn elwa o ddyrannu cyfrifoldebau'n ddiamwys |
| • Mae'r Bwrdd yn derbyn gwybodaeth am brofiad y claf ar sail adborth gan gleifion wedi'i gasglu'n rhagweithiol ac ymatebol. | |

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Ffigwr 12: Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf – nodweddion adrodd ar berfformiad





Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o adroddiadau perfformiad. Dalier sylw – yr uchafswm sgôr posib oedd 10 a'r isafswm sgôr oedd 0.

Ffigwr 13: Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf – crynodeb cyffredinol

| Beth sy’n dda neu’n ymddangos i fod wedi gwella? | Beth allai fod yn well? |
|---|---|
| • Mae crynodeb yr adroddiad yn canolbwyntio ar nifer o feysydd allweddol lle mae’r corff wedi gwneud gwelliannau sylweddol neu’n wynebu sialensiau penodol. | • Mae crynodeb ond byddai cerdyn sgorio a / neu adroddiad eithriadau’n helpu i gyfeirio sylw’r darllenydd. |
| • Mae cymysgedd rhesymol o naratif a data o fewn ffiniau’r hyn sy’n cael ei adrodd. | • Gellid ehangu mwy ar gwmpas y crynodeb oherwydd mae ei ffocws yn drwm ar ddangosyddion mynediad a llwybrau iechyd. |
| • Mae gan yr adroddiad perfformiad gymysgedd o wybodaeth ansoddol a meintiol gyda siartiau a graffeg i ddangos y perfformiad presennol a thueddiadau. | • Gellid ehangu ar gwmpas yr adroddiad perfformiad oherwydd nid yw’n cynnwys holl weithgarwch y bwrdd iechyd. |
| • Ar y cyfan mae gan y rhan fwyaf o’r dangosyddion dargedau cysylltiedig. Mae’r mesurau perfformiad lleol a ddiffiniwyd yn cynnwys targedau. | • Gallai’r cysylltiadau rhwng perfformiad a blaenoriaethau IMTP fod yn gliriach. |
| • Mae naratif yr adroddiad perfformiad yn adnabod mesurau unioni ar draws y rhan fwyaf o’r swyddogaethau. | • Byddai’r prif adroddiad perfformiad yn elwa o wneud mwy o ddefnydd o godio lliw / system RAG i helpu’r darllenydd i fesur perfformiad yn gyflym yn erbyn targedau. |
| • Mae’r adroddiad perfformiad yn defnyddio gwybodaeth gymharol mewn meysydd penodol, ond nid oes meincnodi cyson. | • Byddai’r mesurau gweithredu yn yr adroddiad perfformiad yn elwa o ddyrannu cyfrifoldebau’n ddiamwys. |
| • Adroddir ar rai dangosyddion lleol yn ymwneud â gwella effeithlonrwydd, er enghraifft effeithlonrwydd theatr, cyfraddau DNA, hyd yr arhosiad. | • Byddai’r adroddiad perfformiad yn elwa o naratif mwy treiddgar. |

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Ffigwr 14: Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – nodweddion adrodd ar berfformiad





Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o adroddiadau perfformiad.
Dalier sylw – yr uchafswm sgôr posib oedd 10 a'r isafswm sgôr oedd 0.
Rydym yn ymwybodol bod y Bwrdd Iechyd yn y broses o newid ei system adrodd ar berfformiad pan wnaethom ein dadansoddiad.

Ffigwr 15: Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – crynodeb cyffredinol

| Beth sy'n dda neu'n ymddangos i fod wedi gwella? | Beth allai fod yn well? |
|---|---|
| Mae'r defnydd o gerdyn sgorio lefel uchel yn yr adroddiadau cyllid a pherfformiad yn rhoi trosolwg sydyn. | Mae crynodeb yr adroddiad ar ffurf cerdyn sgorio ond byddai'n elwa o naratif treiddgar i roi darlun cyffredinol o berfformiad a'r ffactorau sy'n gyrru perfformiad. |
| Mae'r adroddiad perfformiad wedi'i strwythuro'n glir ac felly'n hawdd llywio trwyddo. Mae cardiau sgorio'r adrannau'n rhoi darlun cyffredinol o berfformiad ym mhob maes ac yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol ar dueddiadau. | Nid yw'r adroddiad perfformiad yn integredig eto ac mae'r wybodaeth ar wasgar mewn gwahanol adroddiadau. |
| Mae'r adroddiad cyllid yn defnyddio rhai siartiau, rhagolygon o'r sefyllfa diwedd blwyddyn ac yn egluro pa ffactorau sy'n gyrru perfformiad. | Byddai'r adroddiad cyllid yn elwa o gysylltiadau mwy penodol i amcanion ehangach y bwrdd iechyd / IMTP. |
| Mae'r Bwrdd yn adrodd ar berfformiad profiad y claf. | Byddai'r adroddiad cyllid yn elwa o wneud mwy o ddefnydd o godio lliw / system RAG i helpu'r darllenydd i fesur perfformiad yn gynt yn erbyn targedau. |
| Mae'r adroddiad perfformiad yn defnyddio adrodd ar eithriadau i leihau maint yr adrodd. Mae'r adrannau hyn yn aml yn defnyddio graffeg i ddangos y tueddiadau a'r perfformiad presennol ac fel arfer yn adnabod mesurau unioni. | Nid yw'r dewis o bynciau adrodd ar eithriadau'n glir – mae llai o adroddiadau eithriadau na meysydd sy'n tanberfformio. |
| Mae cymysgedd da o naratif, gwybodaeth a data o fewn ffiniau'r hyn sy'n cael ei adrodd. | Ar y cyfan mae'r deunydd ansoddol yn ymwneud ag adrannau eithriadau, gan adael llawer o adrannau'n or-ddibynnol ar gardiau sgorio heb ddim naratif. |
| At ei gilydd mae gan y rhan fwyaf o'r dangosyddion dargedau cysylltiedig – mesurau cenedlaethol yw'r rhain yn bennaf. | Gellid ehangu ar gwmpas yr adroddiad perfformiad oherwydd nid yw'n cynnwys holl weithgarwch y bwrdd iechyd. |
| Mae'r cyfrifoldebau gweithredol dros bob maes yn glir yn yr adroddiad perfformiad. | Byddai'r mesurau gweithredu yn yr adroddiad perfformiad yn elwa o ddyrannu cyfrifoldebau'n ddiamwys. |
| Mae'r adroddiadau'n defnyddio gwybodaeth gymharol mewn meysydd penodol, ond nid oes meincnodi cyson. | Gallai rhai mesurau perfformiad fod yn gryfach, er enghraifft llai o ddefnydd o 'leihau'. |
| Defnyddir 'taflwybrau' perfformiad i benderfynu pa berfformiad sydd ei angen yn y dyfodol i gywiro tanberfformiad neu i gwrdd â'r targed. | Mae lle i ragfynegi'n ehangach na thrwy ddefnyddio taflwybrau perfformiad a rhagfynegi ariannol, fel ar hyn o bryd. |

## Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Ffigwr 16: Bwrdd Iechyd Addysgu Powys – nodweddion adrodd ar berfformiad





Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o adroddiadau perfformiad.
Dalier sylw – yr uchafswm sgôr posib oedd 10 a'r isafswm sgôr oedd 0.

Ffigwr 17: Bwrdd Iechyd Addysgu Powys – crynodeb cyffredinol

| Beth sy'n dda neu'n ymddangos i fod wedi gwella? | Beth allai fod yn well? |
|---|---|
| • Mae'r adroddiad perfformiad yn cynnwys cymysgedd o naratif, gwybodaeth a data. Gwneir defnydd eang o godio lliw, graffeg a gwybodaeth am dueddiadau. | • Nid yw'r adroddiad perfformiad yn integredig eto. Mae adroddiadau ar wahân ar berfformiad cyllid a diweddaru canol blwyddyn. |
| • Mae'r adroddiad perfformiad yn rhoi crynodeb syml. | • Gallai crynodeb yr adroddiad fod yn fwy treiddgar; mae'n dibynnu ar restru'r meysydd lle mae'r perfformiad wedi gwella neu waethygu. |
| • Mae'r adroddiad perfformiad yn cynnwys targedau. | • Mae'r perfformiad yn erbyn targedau weithiau'n cael ei gyflwyno yn nhermau cydymffurfio yn hytrach nag union berfformiad. |
| • Mae naratifau'r adroddiadau'n aml yn egluro amrywiadau, yn cynnwys mesurau unioni ac weithiau'n adnabod pwy sy'n gyfrifol. | • Byddai'r adroddiad cyllid yn elwa o fwy o godio lliw a chysylltiadau i amcanion y bwrdd iechyd / IMTP. |
| • Mae'r wybodaeth am berfformiad fel arfer yn amserol. | • Mae'r adroddiad perfformiad wedi'i drefnu o dan feysydd cenedlaethol nad ydynt yn adlewyrchu amcanion y bwrdd iechyd / IMTP. |
| | • Mae rhai cyfyngiadau ar ddarpariaeth amserol oherwydd mae llawer o'r gofal yn cael ei ddarparu gan ddarparwyr allanol. |
| | • Gallai rhai mesurau perfformiad fod yn gryfach, er enghraifft llai o ddefnydd o 'leihau'. |
| | • Gan amlaf nid yw cyfrifoldebau'n cael eu dyrannu i'r mesurau gweithredu yn yr adroddiadau perfformiad. |
| | • Nid oes dim neu fawr ddim defnydd o feincnodi neu ragfynegi. |

Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ffigwr 18: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru – nodweddion adrodd ar berfformiad





Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o adroddiadau perfformiad. Dalier sylw – yr uchafswm sgôr posib oedd 10 a'r isafswm sgôr oedd 0.

Ffigwr 19: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru – crynodeb cyffredinol

| Beth sy'n dda neu'n ymddangos i fod wedi gwella? | Beth allai fod yn well? |
|---|---|
| • Mae'r crynodeb yn defnyddio naratif i dynnu sylw at yr uchafbwyntiau perfformiad. Mae'r adroddiadau misol a chwarterol yn defnyddio cerdyn sgorio syml. | • Gallai crynodeb yr adroddiad perfformiad fod yn hirach. Nid oes gan yr adroddiad cyllid grynodeb. Nid yw'r nodiant penodol a ddefnyddir i ddangos tanwariant a gorwariant yn ei wneud yn hawdd ei ddarllen. |
| • Mae peth cysylltu i amcanion strategol yr Ymddiriedolaeth ond nid yw'n benodol. | • Nid yw'r adroddiad perfformiad yn integredig eto. Mae'r adroddiadau cyllid ac adroddiadau perfformiad chwarterol ar wahân. |
| • Mae'r adroddiad yn defnyddio peth graffeg i ddangos perfformiad presennol a thueddiadau. | • Gallai'r cysylltiadau rhwng yr adrodd a'r amcanion busnes / IMTP fod yn fwy penodol. |
| • Mae naratif y crynodeb yn nodi pwy sydd â chyfrifoldeb gweithredol am y meysydd perfformiad allweddol. | • Nid oes llawer o naratif ym mhrif gorff yr adroddiad perfformiad. |
| • Mae gan y rhan fwyaf o ddangosyddion dargedau cysylltiedig ac mae defnydd clir o godio lliw i ddangos perfformiad cymharol. | • Nid yw'r adroddiad perfformiad yn cynnwys dim neu fawr ddim meincnodi a rhagfynegi. |
| | • Byddai'r adroddiad perfformiad yn elwa o naratif mwy treiddgar i dywys a gwella dealltwriaeth y darllenydd. |

## Ymddiriedolaeth GIG Felindre

Ffigwr 20: Ymddiriedolaeth GIG Felindre – nodweddion adrodd ar berfformiad





Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o adroddiadau perfformiad. Dalier sylw – yr uchafswm sgôr posib oedd 10 a'r isafswm sgôr oedd 0.

Ffigwr 21: Ymddiriedolaeth GIG Felindre – crynodeb cyffredinol

| Beth sy'n dda neu'n ymddangos i fod wedi gwella? | Beth allai fod yn well? |
|---|---|
| • Mae crynodeb gweithredol sy'n sôn am yr uchafbwyntiau perfformiad. | • Gallai crynodeb yr adroddiad perfformiad fod yn fyrrach a mwy penodol. |
| • Mae'r adroddiad perfformiad yn cynnwys cysylltiadau clir rhwng penawdau adran yr adroddiad ac amcanion. | • Byddai'r adroddiad perfformiad yn elwa o strwythur a fformat gwell.<br>Er enghraifft, mae'r siartiau a'u sylwebaeth gysylltiedig yn aml ar wahanol dudalennau. |
| • Mae cymysgedd o wybodaeth ansoddol a meintiol. Defnyddir cardiau sgorio adrannol sylfaenol. Gwneir peth defnydd o siartiau a chymhorthion gweledol. Mae gan rai meysydd perfformiad dargedau sydd wedi'u dyrannu'n glir. | • Ni wneir defnydd eang o godio lliw a / neu system RAG. |
| • Mae'r wybodaeth am berfformiad yn yr adroddiad gan amlaf yn amserol. | • Mae'r adroddiad perfformiad yn cynnwys peth gwybodaeth benodol sydd wedi dyddio.<br>Er enghraifft mae'r data ESR yn aml yn wyth wythnos oed o leiaf. |
| • Mae naratif yr adroddiad perfformiad yn adnabod rhai mesurau gweithredu. | • Yn aml, nid yw'r adroddiad perfformiad yn nodi pwy sy'n gyfrifol am y mesurau gweithredu. |
| • Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cytuno i wneud peth meincnodi yn y dyfodol gyda Clatterbridge Cancer Centre NHSFT. | • Nid yw'r adroddiad perfformiad yn cynnwys unrhyw feincnodi. |
| • Mae'r adroddiad perfformiad yn cyfeirio ychydig at brofiad y claf. | |
| • Mae'r galw am wasanaethau'n cael ei ragfynegi rhywfaint. | |

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Ffigwr 22: Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru – nodweddion adrodd ar berfformiad




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o adroddiadau perfformiad. Dalier sylw – yr uchafswm sgôr posib oedd 10 a'r isafswm sgôr oedd 0.

Ffigwr 23: Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru – crynodeb cyffredinol

| Beth sy'n dda neu'n ymddangos i fod wedi gwella? | Beth allai fod yn well? |
|---|---|
| • Mae'r adroddiad perfformiad yn rhannol integredig – mae'n cynnwys prif feysydd busnes yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys cyllid. | • Byddai rhai rhannau o'r prif adroddiad perfformiad yn elwa o gydbwysedd gwell rhwng gwybodaeth feintiol a naratif esboniadol ategol. |
| • Mae gan yr adroddiad perfformiad grynodeb byr sy'n tynnu sylw'r darllenydd. Mae'n cynnwys cerdyn sgorio i roi trosolwg lefel uchel. Mae naratif y crynodeb yn seiliedig ar adrodd ar eithriadau. | • Byddai'r prif adroddiad perfformiad yn elwa o grynodebau adran neu gardiau sgorio. |
| • Mae'r adroddiad perfformiad yn cysylltu i amcanion busnes yr Ymddiriedolaeth gan amlaf. | • Mae'r adroddiad perfformiad yn cynnwys ychydig o feincnodi a rhagfynegi. |
| • Defnyddir siartiau a graffeg i ddangos perfformiad presennol a thueddiadau. | • Gyda rhai o'r siartiau a'r graffiau, adroddir ar berfformiad heb gyfeirio at darged gan wneud eu dehongli ar eu pen eu hunain yn anodd. |
| • Mae'r adroddiad perfformiad yn defnyddio ychydig o godio lliw / system RAG. | • Byddai'r mesurau gweithredu yn yr adroddiad perfformiad yn elwa o ddyrannu cyfrifoldebau'n ddiamwys. |
| • Mae'r prif adroddiad perfformiad yn defnyddio ystod o ddata ac yn seiliedig ar wybodaeth amserol. | • Nid yw'r adran gyllid yn cysylltu'n benodol i amcanion yr Ymddiriedolaeth. |
| • Mae'r adroddiad perfformiad yn nodi pwy sydd â chyfrifoldeb gweithredol am feysydd perfformiad allweddol. | |

# Atodiad 1

## Adroddiadau perfformiad wedi eu cynnwys yn nadansoddiad 2015

Mae'r tabl isod yn dangos ym mha fis y cafodd yr adroddiadau perfformiad[4] y cawsant eu cynnwys yn ein dadansoddiad cymharol eu cyflwyno i gyfarfodydd bwrdd.

Cyfarfodydd bwrdd y cyflwynwyd yr adroddiadau perfformiad y cawsant eu cynnwys yn ein dadansoddiad iddynt.

| Corff GIG | Cyfarfod Bwrdd |
|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bro Morgannwg Abertawe | Medi 2015 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | Medi 2015 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Hydref 2015 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Gorffennaf 2015 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf | Medi 2015 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Medi 2015 |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | Hydref 2015 |
| Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru | Mehefin 2015 |
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | Gorffennaf 2015 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | Tachwedd 2015 |

[4] Mae'r adroddiadau perfformiad y cawsant eu cynnwys yn ein dadansoddiad yn rhan o'r papurau bwrdd ar gyfer y cyfarfodydd bwrdd perthnasol. Mae'r papurau ar gael ar wefannau'r byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau GIG unigol.

# Atodiad 2

## Crynodeb o sut y gwnaethom ein dadansoddiad

Mae angen digon o wybodaeth, ar lefel ddigon uchel, ar bob aelod o fwrdd GIG i fod yn hyderus bod y sefydliad yn cael ei redeg yn dda, ond nid gymaint fel ei bod yn anodd dweud beth sy'n bwysig.

### Nodweddion

Mae adroddiadau sy'n cwrdd â'r safon ymarfer da'n dangos nodweddion penodol. Rydym wedi adolygu pob cyfres o adroddiadau bwrdd i weld a oeddent yn dangos y nodweddion hyn ai peidio.

Meini prawf a ddefnyddiwyd i brofi nodweddion yr adroddiadau bwrdd.

| Disgrifiad o'r nodwedd | Nodwedd |
|---|---|
| **Crynodeb** | A oes crynodeb perfformiad sy'n rhoi darlun cryno a theg? |
| **Adrodd ar eithriadau** | Ydy'r crynodeb yn cynnwys adrodd ar eithriadau / pwyntiau allweddol i'r darllenydd gymryd sylw ohonynt? |
| **Cerdyn sgorio** | Ydy'r sefydliad yn defnyddio cerdyn sgorio neu rywbeth tebyg i roi trosolwg lefel uchel? |
| **Cysylltu i'r amcanion busnes** | Ydy'r wybodaeth berfformiad yn cysylltu'n glir i'r amcanion busnes? |
| **Rhagfynegi** | A ddefnyddir rhagfynegi i ddarogan y sefyllfa yn y dyfodol? |
| **Cwmpas meintiol ac ansoddol** | A oes cymysgedd o ddangosyddion / data meintiol wedi'u cefnogi gan wybodaeth gyd-destunol ansoddol gryno? Ydy'r adroddiadau'n egluro beth a ddylanwadodd ar berfformiad a hefyd yn disgrifio'r perfformiad a gyflawnwyd? |
| **Graffeg** | Ydy'r adroddiad yn cynnwys graffiau, siartiau a chymhorthion gweledol i gyflwyno data mewn gwahanol ffyrdd? |
| **Meincnodi** | Ydy'r adroddiad yn cynnwys meincnodi? |
| **Gwybodaeth amserol** | Ydy'r wybodaeth am berfformiad yn amserol (hynny yw dim mwy na dau fis oed?) |
| **Tueddiadau perfformiad** | Ydy'r adroddiad perfformiad yn cynnwys gwybodaeth am dueddiadau? |
| **Cynnwys targedau** | Ydy'r adroddiad perfformiad yn cynnwys targedau? |
| **Perfformiad yn erbyn targedau** | Ydy'r adroddiad yn nodi perfformiad yn erbyn targedau, er enghraifft drwy ddefnyddio system RAG? |
| **Dyrannu cyfrifoldeb am berfformiad** | Ydy'r adroddiad yn adnabod pa uwch reolwyr sy'n gyfrifol am bob maes perfformiad? |

| Disgrifiad o’r nodwedd | Nodwedd |
|---|---|
| **Cynllunio gweithredu** | Ydy’r adroddiad yn nodi pa fesurau gweithredu ychwanegol sydd eu hangen i wella sefyllfa (a chan bwy) lle mae targedau wedi llithro? |

## Cwmpas

Dylai adroddiadau ymarfer da gynnwys gwybodaeth am berfformiad pob agwedd ar waith sefydliad GIG. Rydym wedi galw hyn yn gwmpas swyddogaethol. Rydym wedi adolygu cyfres adroddiadau perfformiad pob bwrdd i weld a oeddent yn cwmpasu’r holl brif agweddau ar waith y corff GIG.

### Meini prawf a ddefnyddiwyd i brofi cwmpas swyddogaethol yr adroddiadau bwrdd

| Cwmpas |
|---|
| Perfformiad ariannol |
| Cyflawni canlyniadau ar gyfer cleifion |
| Darparu rhaglenni a phrosiectau |
| Mesurau effeithlonrwydd / gwerth am arian |
| Mesurau proses |
| Perfformiad y gweithlu |
| Perfformiad darparwyr allanol |
| Mesurau ansawdd a diogelwch |
| Mesurau ansawdd data |
| Mesurau profiad y claf neu enw da |

## Sgorio

Ar gyfer pob adroddiad, ystyriwyd a oedd yr adroddiad yn dangos ein meini prawf yn llawn, yn rhannol neu ddim o gwbl. Ar sail y tri grŵp eang hwn rhoesom sgôr, a chyflwynir hyn yn y tabl isod. Drwy wneud hyn roeddem yn gallu mesur pa mor dda oedd yr adroddiad perfformiad yn dangos yr ymarfer da yr oeddem yn chwilio amdano.

### Sut y gwnaethom sgorio pob adroddiad

| Oedd yr adroddiad yn dangos ein meini prawf? | Sgôr |
|---|---|
| **Oedd** | 1.0 |
| **Yn rhannol** | 0.5 |
| **Nag oedd** | 0.0 |

Mae uchafswm ac isafswm y sgoriau posib ar gyfer nodweddion adrodd a meysydd cwmpas swyddogaethol yn seiliedig ar nifer o feini prawf asesu ar gyfer pob un:


- nodweddion – defnyddiwyd cyfres o 10 o feini prawf i asesu pob un o'r 14 nodwedd adrodd, gan roi uchafswm sgôr o 10 ac isafswm sgôr o 0; a
- cwmpas swyddogaethol – defnyddiwyd 14 o feini prawf i asesu pob un o'r 10 maes cwmpas swyddogaethol, gan roi uchafswm sgôr o 14 ac isafswm sgôr o 0.


# Atodiad 3


## Nodweddion adrodd – cymhariaeth o bob corff iechyd yn ôl nodweddion


Mae angen bod yn bwyllog wrth gymharu'r siartiau am y rhesymau canlynol:


- Nid yw'r graddfeydd yn gyson rhwng pob siart oherwydd bod angen i ni addasu'r echel ar gyfer pob siart er mwyn cyflwyno pethau'n gliriach.
- Ar gyfer y rhan yma o'r dadansoddiad, yr uchafswm sgôr oedd 10 a'r lleiafswm sgôr oedd 0.


























Cymhariaeth o'r nodweddion adrodd – Defnyddio graffeg
YGAC
Felindre
ICC
Powys
HD
CT
CF
PBC
PABM
AB
Cymru Gyfan
0.0 1.0 2.0 3.0 4.0 5.0 6.0 7.0 8.0 9.0



Cymhariaeth o'r nodweddion adrodd – Meincnodi
YGAC
Felindre
ICC
Powys
HD
CT
CF
PBC
PABM
AB
Cymru Gyfan
0.0 1.0 2.0 3.0 4.0 5.0 6.0 7.0 8.0



Cymhariaeth o'r nodweddion adrodd – Gwybodaeth amserol
YGAC
Felindre
ICC
Powys
HD
CT
CF
PBC
PABM
AB
Cymru Gyfan
0.0 1.0 2.0 3.0 4.0 5.0 6.0 7.0 8.0 9.0


Cymhariaeth o'r nodweddion adrodd – Tueddiadau
YGAC
Felindre
ICC
Powys
HD
CT
CF
PBC
PABM
AB
Cymru Gyfan
0.0 1.0 2.0 3.0 4.0 5.0 6.0 7.0 8.0 9.0


Cymhariaeth o'r nodweddion adrodd – Cynnwys targedau
YGAC
Felindre
ICC
Powys
HD
CT
CF
PBC
PABM
AB
Cymru Gyfan
0.0 1.0 2.0 3.0 4.0 5.0 6.0 7.0 8.0 9.0 10.0


Cymhariaeth o'r nodweddion adrodd – Cyrraedd Targedau
YGAC
Felindre
ICC
Powys
HD
CT
CF
PBC
PABM
AB
Cymru Gyfan
0.0 1.0 2.0 3.0 4.0 5.0 6.0 7.0 8.0 9.0


Cymhariaeth o'r nodweddion adrodd – Dyrannu cyfrifoldeb
YGAC
Felindre
ICC
Powys
HD
CT
CF
PBC
PABM
AB
Cymru Gyfan
0.0 1.0 2.0 3.0 4.0 5.0 6.0 7.0 8.0 9.0


Cymhariaeth o'r nodweddion adrodd – Cynllunio gweithredu
Felindre
ICC
Powys
HD
CT
CF
PBC
PABM
AB
Cymru Gyfan
0.0 1.0 2.0 3.0 4.0 5.0 6.0 7.0 8.0

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru